# Diwrnod y Plant



Mae Sul y Mamau ym mis Mawrth fel arfer. Mae Sul y Tadau ym mis Mehefin fel arfer. Mae Sul y Neiniau a'r Teidiau ym mis Hydref. Ond pryd mae Sul y Plant - neu Ddiwrnod y Plant hyd yn oed?

Y gwir yw: Does dim Diwrnod y Plant yng Nghymru!

Pan fydda i'n dweud wrth fy rhieni y dylen ni gael Diwrnod y Plant yng Nghymru, maen nhw'n chwerthin ac yn dweud "Mae pob dydd yn Ddiwrnod y Plant! Rydyn ni'n rhoi rhywbeth i ti bob dydd. A beth bynnag, nid plentyn bach wyt ti - rwyt ti yn dy arddegau erbyn hyn!"

Ond dylen ni, blant a phobl ifanc, gael diwrnod arbennig i ni'n hunain - fel y dathliadau uchod. Diwrnod i … gael brecwast yn y gwely … hamddena a gwneud dim byd drwy'r dydd. Yn sicr, fyddai dim ysgol! Dylen ni gael cardiau Diwrnod y Plant Hapus ac, wrth gwrs, dylen ni gael anrheg fach (neu fawr!) - yn union fel fy rhieni i ar eu dyddiau nhw.

Yn wir, Prydain yw un o'r gwledydd prin sydd ddim yn dathlu'r diwrnod! Yn Japan, er enghraifft, mae Diwrnod y Plant ar 5 Mai ac mae'r ysgolion i gyd yn cau. Mewn teuluoedd lle mae yna blant maen nhw yn hongian baneri ar ffurf pysgodyn carp tu allan neu tu mewn i'w cartrefi, gan fod y pysgodyn hwn yn symbol o lwyddiant ac o lwc. Mae'r plant yn cael cacennau arbennig ac mae digwyddiadau arbennig yn cael eu cynnal, gan gynnwys Gemau Olympaidd ar gyfer plant yn Tokyo.

Ym Mecsico, maen nhw'n dathlu Diwrnod y Plant ar 30 Ebrill. Mae llawer o ddigwyddiadau diddorol, llawn hwyl ac, yn lle cael gwersi yn yr ysgol, mae'r plant yn cael partïon gyda bwyd blasus, losin, gemau a phob math o hwyl.

Mae Diwrnod y Plant ar 1 Mehefin yn China a does dim gwersi. Mae rhai ysgolion yn trefnu gweithgareddau fel mynd ar drip, dangos ffilmiau a digwyddiadau eraill lle gall y plant gael hwyl. Mae plant yn cael mynd i'r sinema, i'r parc neu i'r amgueddfa am ddim ar y diwrnod hwn. Maen nhw'n cael anrhegion ac arian gan aelodau'r teulu hefyd.

Mae plant India'n dathlu Diwrnod y Plant ar 14 Tachwedd, sef dydd pen-blwydd prif weinidog cyntaf y wlad, Nehru. Mae llawer o ddigwyddiadau'n cael eu trefnu mewn ysgolion. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn cyngherddau a sioeau ac mae rhai athrawon hyd yn oed yn perfformio dawnsfeydd o flaen y plant. Mae'n gyfle gwych i blant gael hwyl a sbri! Mae'r gorsafoedd teledu'n dangos rhaglenni arbennig ar gyfer y plant drwy'r dydd.

**Pam nad ydyn ni yng Nghymru'n cael Diwrnod y Plant?**